**PWYLLGOR Y CYFANSODDIAD A GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**
**5 MAWRTH 2020**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, ddydd Iau, 5 Mawrth 2020

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ted Palmer (Cadeirydd)**
Cynghorwyr: Clive Carver, Jean Davies, Rob Davies, David Healey, Gladys Healey, Joe Johnson, Paul Johnson, Mike Peers, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Neville Phillips, Ian Smith, David Williams, David Wisinger ac Arnold Woolley

**DIRPRWYON:** Y Cynghorydd Christine Jones ar ran Chris Bithell

**YMDDIHEURIADAU:** Bob Connah

**YN BRESENNOL:** Y Prif Swyddog (Llywodraethu), y Rheolwr Archwilio Mewnol, y Rheolwr Cyllid Strategol, a'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 26. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

## 27. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Ionawr 2020.

**PENDERFYNWYD:**

Y dylid derbyn bod y cofnodion yn gywir ac y dylai'r Cadeirydd eu llofnodi.

## 28. COD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cyflwynodd y Rheolwr Archwilio Mewnol adroddiad ar y Cod Llywodraethu Corfforaethol diwygiedig sydd i'w gynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor. Darparodd wybodaeth gefndirol ac eglurodd mai'r Gweithgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliodd adolygiad diweddaru a fformatio'r cod i ddechrau cyn i ymgynghoriad gael ei gynnal gyda'r Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro, a'r Swyddog Adran 151. Cymeradwywyd y Cod gan y Pwyllgor Archwilio mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2020. Er bod fformat y Cod wedi'i symleiddio ar gyfer 2019/20, dim ond nifer fechan o newidiadau a wnaed i ddiweddaru'r ddogfen. Atodwyd y Cod diwygiedig i'r adroddiad.

Tynnodd y Rheolwr Archwilio Mewnol sylw at saith egwyddor y Cod, fel a amlinellwyd yn yr adroddiad. Roedd yr egwyddorion i'w defnyddio gan y Gweithgor Llywodraethu Corfforaethol, y Prif Swyddogion, a Chadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu i gynorthwyo'r gwaith o lywio'r paratoadau ar gyfer y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Gofynnodd y Cynghorydd Mike Peers a oedd yr Aelod Cabinet wedi'i gynnwys yn y ddogfennaeth ddrafft a baratowyd gan y Gweithgor Llywodraethu Corfforaethol

i'w hystyried gan y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro, a'r Swyddog Adran 151. Cyfeiriodd hefyd at dudalen 21 yr adroddiad ac awgrymodd y dylid ychwanegu dolen rhwng y Pwyllgor Safonau ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Cynigiwyd yr argymhelliad yn yr adroddiad gan y Cynghorydd Jean Davies a'i eilio gan y Cynghorydd David Wisinger.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo mabwysiadu'r Cod Llywodraethu Corfforaethol diwygiedig fel rhan o Gyfansoddiad y Cyngor.

**29. RHEOLAU GWEITHDREFNAU ARIANNOL**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Strategol yr adroddiad ar y Rheolau Gweithdrefnau Cyllid diwygiedig arfaethedig i'w ystyried cyn y bydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir ei gymeradwyo ar 5 Mai 2020. Cynghorodd fod y Rheolau Gweithdrefnau Ariannol wedi'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio mewn cyfarfod ar 29 Ionawr 2020, a bod manylion am yr adborth yn yr adroddiad. Atodwyd y Rheolau Gweithdrefnau Ariannol diwygiedig, oedd yn cynnwys y mân newidiadau a argymhellwyd gan y Pwyllgor Archwilio, i'r adroddiad.

Adroddodd y Rheolwr Cyllid Strategol ar y prif ystyriaethau. Eglurodd y byddai'r trefniadau newydd i sicrhau trosolwg corfforaethol yn cael eu rhoi yn ei lle ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo. Byddai'r Timau Cyllid yn monitro bod y Rheolau Gweithdrefnau Ariannol yn cael eu dilyn, a byddai unrhyw doriadau neu bryderon yn cael eu hadrodd i'r Prif Swyddogion bob chwarter.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Mike Peers at dudalen 48, paragraff 1.3.1, a gofynnodd a ddylid cyfeirio hefyd at y Datgan Cysylltiad blynyddol a gwblheir gan Aelodau fel rhan o'r broses Datgan Cyfrifon. Eglurodd y Swyddog Cyllid Strategol fod hyn yn ofyniad penodol mewn perthynas â'r broses Datgan Cyfrifon. Dywedodd y Prif Swyddog y byddai hyn yn cael ei ystyried.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Peers ynghylch gwybodaeth ar dudalen 51 am gofnodion anghyfreithlon yng nghyfrifon y Cyngor, rhoddodd y Prif Swyddog eglurhad ynghylch y cyfeiriad at wariant anghyfreithlon a chofnodion anghyfreithlon yng nghyfrifon y Cyngor.

Gan gyfeirio at baragraff 1.3.1, tudalen 48, nododd y Cynghorydd Clive Carver y cyfeiriad at Aelodau a swyddogion yn y frawddeg gyntaf, a gofynnodd a ddylid cynnwys cyfeiriad at Aelodau ym mharagraff 1.4.4, tudalen 49, hefyd. Eglurodd y Rheolwr Cyllid Strategol na chafodd Aelodau eu cynnwys gan y bernid fod ganddynt swyddogaeth 'goruchwylio'. Yn ystod y drafodaeth cytunwyd y byddai paragraff 1.4.4 yn cael ei ddiwygio i: "Lle bo unrhyw Swyddog neu Aelod yn ystyried y byddai cydymffurfio â'r Rheoliadau Ariannol mewn sefyllfa benodol...".

Gwnaeth y Cynghorydd Clive Carver sylw am y gofyniad i'r Swyddog Adran 151 adrodd am gofnodion anghyfreithlon yn y cyfrifon, a gofynnodd a ddylai hyn gynnwys camgymeriadau. Ymatebodd y Swyddog Cyllid Strategol gan ddweud y

byddai unrhyw gamgymeriad sylweddol yn cael ei nodi a'i adrodd fel rhan o broses Datganiad Cyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Paul Johnson at wybodaeth ynghylch cynnal a chadw cronfeydd arian wrth gefn ar dudalen 61 yr adroddiad, a gofynnodd sut y byddai digwyddiad annisgwyl yn cael ei ariannu pe bai'r gost yn fwy na faint o arian fyddai wrth gefn. Eglurodd y Rheolwr Cyllid Strategol fod gan y Cyngor lefel sylfaenol o arian wrth gefn ac mai'r amddiffynfa olaf yw hynny, a bod angen, wrth benderfynu ar gyllideb, ddod o hyd i gydbwysedd rhwng diogelu gwasanaethau, cadw cynyddiadau treth cyngor mor isel â phosibl, a chynnal lefel ddigonol o arian wrth gefn. Dywedodd y Prif Swyddog, pe bai'r gost yn fwy na faint o arian oedd wrth gefn, efallai y gofynnid i Lywodraeth Cymru am gymorth gan y Gronfa Cymorth Ariannol. Tynnodd y Rheolwr Cyllid Strategol sylw at dudalen 57 yr adroddiad, paragraff (m), a dywedodd y dylai'r Prif Weithredwr/Prif Swyddog ymgynghori â'r Prif Swyddog Cyllid cyn mynd i wariant, ac y dylid adrodd hyn i'r Cabinet cyn gynted â phosibl. Yn ystod y drafodaeth awgrymwyd diwygio brawddeg olaf y paragraff i: "a dylid cytuno ar sut i ariannu gwariant o'r fath a sut y dylid ymdrin ag ef cyn gynted â phosibl".

Cynigiwyd yr argymhelliad yn yr adroddiad gan y Cynghorydd David Wisinger a'i eilio gan y Cynghorydd Mike Peers.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r Rheolau Gweithdrefnau Ariannol diwygiedig ac argymell bod y Cyngor yn eu cymeradwyo hefyd.
Council for approval.

## 30. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd aelodau o'r wasg na'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm, a daeth i ben am 2.35pm)

…………………………
**Cadeirydd**